



Bethan Jenkins AC
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

bethan.jenkins@cynulliad.cymru

07/02/2017

Annwyl Gadeirydd

Arolwg Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd 2016

Ysgrifennaf atoch i gyflwyno adroddiad yn seiliedig ar ganfyddiadau arolwg a gynhaliats i etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd yn 2016. Mae adroddiad [Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd 2016](#) yn cyflwyno gwybodaeth ystadegol ar sut defnyddiwyd y Gymraeg yn ystod yr etholiadau ac argaeledd gwybodaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg. Adroddir hefyd ar ddefnydd y Gymraeg wrth gyhoeddi canlyniadau'r etholiadau.

Fel y gwyddoch o bosib, cyhoeddais adroddiad tebyg yn ôl ym mis Awst 2015 yn cyflwyno canfyddiadau arolwg oedd yn mynd i'r afael ag argaeledd gwybodaeth a dogfennau cyfrwng Cymraeg ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2015. Yn ogystal â chynnig darlun cywir o'r ddarpariaeth oedd ar gael, roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig cyfres o argymhellion ynghylch sut dylai'r rhai sy'n gysylltiedig â chynnal a gweinyddu etholiadau yng Nghymru wella'r gwasanaeth cyfrwng Cymraeg a ddarperir.

Yr wyf eisoes wedi datgan fy mwriad i weithredu rhaglen reoleiddio ragataliol yn y Cynllun Strategol 2015-17, a hynny er mwyn mesur perfformiad a rhoi barn ar brofiadau pobl wrth iddynt geisio gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg. Ym mis Mai 2016, cynhaliwyd etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac hefyd etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd. Roeddwn yn awyddus felly i gynnal arolwg pellach yn 2016 oedd yn canolbwyntio ar yr un agweddau gyda'r nod o fesur cynnydd ers adroddiad 2015.

Yn gryno, dof i'r casgliad fod cynnydd wedi bod o ran dogfennaeth a ffurflenni etholiadau cyfrwng Cymraeg, gyda phob ffurflen gofrestru bellach ar gael yn Gymraeg. Serch hynny,

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

roedd argaeledd a hygyrchedd y ffurflenni Cymraeg yn parhau yn annigonol gyda sawl achos ble roedd rhaid chwilio am yr wybodaeth trwy gyfrwng y Saesneg yn gyntaf. Golygai hyn bod yn rhaid i'r rhai oedd dymuno defnyddio'r Gymraeg wneud mwy o ymdrech a mynd gam ymhellach i dderbyn gwasanaeth Cymraeg nac a fyddai angen pe bai'n cyrchu'r gwasanaeth yn Saesneg. Ceir dadansoddiad llawn o'r canfyddiadau yn yr adroddiad ei hunan ynghyd â chyfres o argymhellion y gofynnaf i sefydliadau penodol eu hystyried.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar yr adroddiad cysylltwch â Tesni Glyn, Swyddog Cydymffurfio ar tesni.glyn@cyg-wlc.cymru.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg


c.c. Steve George, Clerc, y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
SeneddCWLC@assembly.wales

Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd 2016



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Chwefror 2017



Cynnwys

1. Cefndir	3
2. Argraffiadau Cyffredinol	5
3. Methodoleg	7
4. Canlyniadau	9
4.1 www.gov.uk	9
4.2 Gwefan y Comisiwn Etholiadol / Fy mhleidlais i	12
4.3 Gwefan 'Dewis fy Nghomisiynydd Heddlu a Throsedd'	14
4.4 Gwefannau'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd	16
4.5 Gwefannau'r awdurdodau lleol	17
4.6 Cyhoeddi'r canlyniadau	24
5. Crynodeb o'r argymhellion	28

1. Cefndir

- 1.1 Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau sydd yn gyfrifol am weinyddu etholiadau yng Nghymru. Maent yn endidau cyfreithiol annibynnol. Nid ydynt yn atebol i awdurdodau lleol nac ychwaith yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswyddau statudol ieithyddol. Yn yr un modd, nid yw swyddogion yr awdurdod lleol yn ddarostyngedig i ddyletswyddau statudol ieithyddol wrth iddynt gyflawni unrhyw ddyletswyddau ar ran y Swyddog Cofrestru neu'r Swyddog Canlyniadau. Serch hynny, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac mae'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wedi ei sefydlu ers blynedd bellach. Cred y Comisiynydd felly, bod cyfrifoldeb moesol ar Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru i barchu statws swyddogol y Gymraeg o fewn prosesau democrataidd yng Nghymru, ac i wneud hynny mewn dulliau ymarferol. Wrth wneud hynny dylid cymryd sylw o ganllawiau a ddarperir mewn perthynas â'r Gymraeg e.e. arweiniad gan y Comisiwn Etholiadol yn ymwneud â'r Gymraeg neu argymhellion a wneir gan Gomisiynydd y Gymraeg (fel sydd yn gynwysedig yn yr adroddiad hwn).
- 1.2 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol a grëwyd gan Lywodraeth y DU sydd â chyfrifoldeb dros weinyddu a rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau. Maent yn darparu cefnogaeth a chanllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau. O ran eu gwaith gyda'r cyhoedd, maent yn gweithio i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bleidleiswyr ynglŷn â threfniadau a phrosesau'r etholiadau yn ogystal ag ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth dinasyddion o'r etholiadau a refferenda sydd ar y gweill.
- 1.3 Ym mis Ebrill 2015, cynhaliodd y Comisiynydd arolwg ar drefniadau cyflwyno gwybodaeth a darparu dogfennaeth berthnasol ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2015. Canolbwyntiodd yr arolwg ar argaeledd gwybodaeth a dogfennau ar wefannau awdurdodau lleol, gwefan y Comisiwn Etholiadol a gwefan gwasanaethau a gwybodaeth Llywodraeth y DU, www.gov.uk, a weinyddir gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth.
- 1.4 Ar sail yr arolwg, daeth y Comisiynydd i'r casgliad bod:
- y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi darparu ffurflenni cofrestru i bleidleisio trwy gyhoeddi dolen at wefan y Comisiwn Etholiadol neu gov.uk. Methodd nifer ohonynt â chynnwys dolen at dudalennau Cymraeg y gwefannau hynny.
 - anghysondeb wrth i rai Swyddogion Canlyniadau gyhoeddi'r canlyniadau'n gyfan gwbl ddwyieithog, rhai yn rhannol ddwyieithog ac eraill yn Saesneg yn unig.
-

- 1.5 Cyhoeddwyd adroddiad yr arolwg [‘Etholiad Cyffredinol 2015: Ffurflenni Pleidleisio, Gwybodaeth Gysylltiedig a Chyhoeddi’r Canlyniadau yn Gymraeg’](#) ym mis Hydref 2015 a oedd yn cynnwys 15 o argymhellion er mwyn gwella’r defnydd o’r Gymraeg erbyn Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd yn 2016. Roedd yr argymhellion yn ymwneud â sicrhau bod yr un lefel o wybodaeth ar gael yn y Gymraeg ag sydd yn y Saesneg; bod yr wybodaeth Gymraeg yn hawdd ei chyrraedd ac yn gyfartal â’r Saesneg o ran cynnwys, safon a diwyg, a chyhoeddi canlyniadau etholiadau yn llawn yn Gymraeg.
- 1.6 Mae’r adroddiad hwn felly yn ddilyniant o adroddiad Etholiad Cyffredinol 2015 sy’n cynnig darlun cywir o’r sefyllfa ddiweddaraf yn sgil arolygu trefniadau Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd yn 2016. Deuir hefyd i gasgliad ynglŷn ag unrhyw gynnydd a fu ers cyhoeddi adroddiad Etholiad Cyffredinol 2015.

2. Argraffiadau Cyffredinol

- 2.1 Wrth ystyried canfyddiadau'r arolwg hwn a'u cymharu â chanfyddiadau adroddiad arolwg Etholiad Cyffredinol 2015, gwelir bod gwelliannau amlwg i'w gweld mewn rhai agweddau tra bod methiannau yn parhau mewn agweddau eraill. Ni ellir datgan eto bod profiad siaradwr Cymraeg yn gyfartal â phrofiad siaradwr di-Gymraeg gan fod rhaid i'r unigolyn sydd yn dymuno derbyn gwybodaeth a ffurflenni trwy gyfrwng y Gymraeg, yn aml fynd gam ymhellach a gwneud mwy o ymdrech na phe bai'n cyrchu'r wybodaeth trwy gyfrwng y Saesneg.
- 2.2 Gwelwyd bod cynnydd amlwg wedi bod yn nhermau dogfennaeth a ffurflenni etholiadau gan fod pob ffurflen gofrestru bellach ar gael yn Gymraeg. Noder fodd bynnag bod argaeledd a hygyrchedd y ffurflenni hynny yn parhau yn annigonol. Gwelwyd enghreifftiau pan oedd rhaid cyrchu gwybodaeth yn Saesneg yn gyntaf cyn cyrraedd ffurflenni Cymraeg ac achosion pan oedd dolenni a ddarparwyd ar wefannau Cymraeg yn arwain at wybodaeth a ffurflenni Saesneg. Yn ogystal, tra bod pob ffurflen ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, nid oedd y wybodaeth gyffredinol neu'r cyfarwyddiadau fyddai'n cyd-fynd â'r ffurflen ar gael yn Gymraeg ym mhob achos.
- 2.3 Daethpwyd i'r casgliad bod cynnydd i'w weld o safbwynt cyhoeddi canlyniadau'r etholiad. Canfuwyd bod pob cyhoeddiad a wiriwyd wedi ei wneud yn ddwyieithog. Fodd bynnag, roedd y graddau yr oedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cyfateb i'w gilydd yn amrywio yn helaeth. Cafwyd chwe achos pan gyhoeddwyd canlyniad etholiad yn ei gyfanrwydd yn Saesneg yn gyntaf cyn cyhoeddi yn Gymraeg a sawl achos pan nad oedd y cyhoeddiad Cymraeg yr un mor ddealladwy â'r cyhoeddiad Saesneg.
- 2.4 Yn ystod Etholiad 2016, gohebwyd â'r Comisiynydd ar fwy nag un achlysur ynglŷn ag anfodlonrwydd aelodau'r cyhoedd â'r defnydd o'r Gymraeg yn nhrefniadau'r etholiad o fewn eu hetholaeth hwy. Tynnwyd sylw'r Comisiynydd at achosion o lythyrau uniaith Saesneg yn cael eu gyrru gan y swyddfa etholiadau leol at etholwyr a oedd wedi cofrestru trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.5 Mynegodd un aelod o'r cyhoedd bryder am iddynt dderbyn ymateb anghwrtais ac agwedd sarhaus oddi wrth swyddog yn yr orsaf bleidleisio yn dilyn cais am gymorth yn Gymraeg.
- 2.6 Mae'r Comisiynydd hefyd wedi derbyn gohebiaeth yn datgan pryder am y defnydd o'r Gymraeg wrth gyhoeddi'r canlyniadau a'r anghysondeb yn y modd yr oedd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi o un etholaeth i'r llall.
-

Argraffiadau Cyffredinol

- 2.7 Derbyniodd y Comisiynydd bump cwyn drwy'r weithdrefn gwynion yn ymwneud ag agweddau gweinyddol yr etholiad. Ond o ganlyniad i statws annibynnol y Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru nid oedd pŵer gan y Comisiynydd i ymchwilio ymhellach iddynt.
- 2.8 Tra bo'r cynnydd a welwyd yn yr adroddiad hwn gam yn agosach at sicrhau gwell gwasanaeth etholiadol drwy gyfrwng y Gymraeg, ymddengys bod peth gwaith i'w wneud o hyd os am sicrhau na chaiff y rheiny sy'n dymuno ymwneud â'r broses etholiadol drwy gyfrwng y Gymraeg eu trin yn llai ffafriol na'r sawl sy'n ymwneud â'r broses yn Saesneg.

3. Methodoleg

3.1 Ymarferiad oedd hwn i wirio argaeledd ac ansawdd gwybodaeth, ffurflenni a gwasanaethau etholiadol ar-lein yn Gymraeg. Fel adroddiad Etholiad Cyffredinol 2015, y bwriad oedd sicrhau bod yr arolwg yn adlewyrchu gwir brofiad dinesydd wrth fynd ati i gyrchu gwybodaeth, ffurflenni a gwasanaethau etholiadol ar-lein. Gan fod tuedd bellach ers rhai blynyddoedd i gyrchu'r math yma o wybodaeth ar-lein, penderfynwyd unwaith eto i wirio argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau hyn trwy gyfrwng gwefannau perthnasol.

3.2 Mae'r canllaw statudol 'Cynlluniau Iaith Gymraeg: eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993' yn nodi y dylai cynlluniau iaith gynnwys:

“ymrwymiad i gyhoeddi neu brintio yn ddwyieithog unrhyw ddeunydd a anelir at y cyhoedd yng Nghymru . . .”

“ymrwymiad i ddarparu ffurflenni a deunydd esboniadol cwbl ddwyieithog ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru”

Mae'r Comisiynydd yn ystyried gwefannau a gwasanaethau ar-lein i fod yn estyniad rhesymegol o'r hyn y cyfeirir ato uchod.

3.3 Cynhaliwyd yr ymarferiad rhwng mis Chwefror a mis Mai 2016.

3.4 Cynhaliodd y Comisiynydd arolwg o wefannau pob un awdurdod lleol; gwefannau a weinyddir gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth (www.gov.uk a www.choosemypcc.org.uk); gwefannau'r Comisiwn Etholiadol (www.comisiwnetholiadol.org.uk a www.fymhleidlaisi.co.uk); a gwefannau unigol y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru.

3.5 Fel rhan o'r arolwg gwiriwyd i ba raddau yr oedd y canlynol ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog:

- Gwybodaeth gyffredinol am yr etholiadau
- Gwybodaeth gyffredinol am bleidleisio a chofrestru i bleidleisio
- Ffurflen gofrestru i bleidleisio (papur ac / neu electronig)
- Ffurflen gais ar gyfer pleidlais bost (papur ac / neu electronig)
- Ffurflen gais ar gyfer pleidlais drwy ddirprwy (papur ac / neu electronig)
- Hysbysiad o etholiad
- Gwybodaeth am ymgeiswyr
- Dolenni i wasanaethau neu wefannau defnyddiol eraill

Gwiriwyd hefyd hygyrchedd yr uchod yn ogystal â'r graddau yr oedd fersiynau Cymraeg yn cyfateb i'r Saesneg o ran cynnwys ac ansawdd.

Methodoleg

- 3.6 Gwiriwyd 38 allan o'r 44 cyhoeddiad llafar cyhoeddus a wnaed ar ganlyniad yr etholiad ar draws etholaethau a rhanbarthau Cymru drwy gyfrwng darllediad y BBC.

4. Canlyniadau

4.1 www.gov.uk

Cefndir

4.1.1 Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (sef adran o fewn Swyddfa'r Cabinet) sydd yn gyfrifol am www.gov.uk a weithredir i fod yn un porth canolog ar gyfer holl wasanaethau Llywodraeth y DU.

Canfyddiadau'r arolwg

4.1.2 Mae'r wefan yn parhau yn uniaith Saesneg i raddau helaeth, gydag adran fechan benodol wedi ei neilltuo ar gyfer yr holl wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Ceir dolen i'r adran ar waelod y dudalen hafan gyda'r teitl "rhestr o wasanaethau Cymraeg". Yn gysylltiedig â hyn, wrth ymateb i adroddiadau monitro blynyddol sefydliadau sydd â'u presenoldeb gwe ar gov.uk, dylid nodi bod y Comisiynydd eisoes wedi nodi'r angen am well hygyrchedd o ran y gwasanaethau Cymraeg a'r angen i symud y botwm 'Gwasanaethau Cymraeg' i fan sydd yn fwy amlwg a hygyrch i ymwelwyr sydd yn dymuno cyrchu'r wybodaeth yn Gymraeg.

4.1.3 Mae'r adran ar y wefan sydd yn berthnasol i'r adroddiad hwn (sef 'Cofrestru i Bleidleisio') yn ymddangos o dan y pennawd 'Gwasanaethau'r Cyngor a'r Amgylchedd'. Mae'r dudalen gyfatebol Saesneg 'Voting' yn cynnig rhestr o wasanaethau cofrestru a gwybodaeth gyffredinol am etholiadau / refferenda, pwy sydd â'r hawl i bleidleisio ayyb. Ceir hefyd adnodd sydd yn galluogi'r dinesydd i chwilio am a chysylltu gyda'i Swyddfa Etholiadol Leol. Mae'r adran Gymraeg yn canolbwyntio ar gofrestru i bleidleisio yn unig. Ceir gwasanaeth cofrestru ar lein a ffurflenni pdf Cymraeg i'w hargraffu a'u cwblhau ar bapur. Mae'r ffurflenni hyn yn cynnwys:

- Ffurflen gofrestru unigol
 - Ffurflen gofrestru etholiadol ar gyfer Gwas y Goron neu weithiwr y Cyngor Prydeinig neu briod neu bartner sifil
 - Ffurflen gofrestru etholiadol ar gyfer aelod o Luoedd Arfog ei Mawrhydi, eu priod neu bartner sifil
-

Canlyniadau

10

- 4.1.4 Nid oes unrhyw wybodaeth neu wasanaeth pellach ar gael yn yr adran hon. Fodd bynnag, mae'r ffurflenni canlynol ar gael yn Gymraeg:
- Ffurflen gais am bleidleisio drwy'r post
 - Ffurflenni cais am bleidleisio drwy ddirprwy ar sail yr amgylchiadau canlynol:
 - Pan fyddwch oddi cartref
 - O ganlyniad i gyflogaeth
 - O ganlyniad i fynychu cwrs addysgiadol
 - Oherwydd anabledd
 - Dinesydd Prydeinig sydd yn byw tramor
 - aelod o Luoedd Arfog ei Mawrhydi, eu priod neu bartner sifil
 - Gweision y Goron, gweithwyr y Cyngor Prydeinig neu eu priod neu bartner sifil

Noder fodd bynnag, na ellir cyrchu'r ffurflenni hyn drwy'r adran Gymraeg. Ond yn hytrach rhaid dilyn y tudalennau Saesneg ble mae'r ffurflenni Cymraeg wedi eu cynnwys ymysg rhestr o ffurflenni cyfatebol Saesneg.

- 4.1.5 Roedd 21 allan o'r 22 awdurdod lleol yn cyfeirio'r dinesydd at y wefan gov.uk. O'r 21 awdurdod hynny, roedd 15 yn arwain at y dudalen 'Cofrestru i Bleidleisio' Cymraeg. Roedd y chwe awdurdod arall yn arwain at dudalennau Saesneg gwefan www.gov.uk.
- 4.1.6 Roedd 21 awdurdod lleol yn cyfeirio dinesydd at y wefan ar gyfer cofrestru i bleidleisio. Roedd 14 o'r awdurdodau lleol hyn yn cyfeirio at y tudalennau Cymraeg tra bo'r ddolen oddi ar wefannau'r saith arall yn arwain y dinesydd at y tudalennau Saesneg.
- 4.1.7 Dim ond un awdurdod lleol oedd yn cyfeirio dinesydd at y wefan ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost. Roedd y ddolen yn arwain at dudalennau Saesneg www.gov.uk.
- 4.1.8 Ni chyfeiriodd yr un awdurdod lleol at y wefan ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy.

Cynnydd ers etholiad 2015

- 4.1.9 Cyhoeddodd y Comisiynydd ei hadroddiad ar 'Etholiad Cyffredinol 2015' fis Hydref 2015. Roedd yr argymhellion canlynol yn berthnasol i Wasanaeth Digidol y Llywodraeth a www.gov.uk:
- Dylai Swyddfa'r Cabinet sicrhau bod yr adnodd cofrestru i bleidleisio trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefan y www.gov.uk yn cael ei osod mewn man sy'n fwy hygyrch i'r defnyddiwr.
 - Dylai Swyddfa'r Cabinet sicrhau bod pob tudalen a ffurflen ar wefan www.gov.uk sy'n darparu gwybodaeth ar y broses o gofrestru i bleidleisio a dulliau o fwrw pleidlais ar gael yn Gymraeg.
 - Dylai Swyddfa'r Cabinet sicrhau bod pob adnodd ar-lein sy'n galluogi dinasyddion i gofrestru ar-lein a diwygio'u manylion ar y gofrestr etholiadol 'agored' fod ar gael yn Gymraeg.
-

- 4.1.10 Dim ond wrth gyrchu'r wefan Saesneg neu drwy glicio ar ddolen gyffredinol 'Gwasanaethau Cymraeg' (sydd wedi ei lleoli ar waelod eithaf y dudalen hafan) y gellir cael mynediad i'r adnodd ar gyfer cofrestru i bleidleisio. Nid yw'r Comisiynydd o'r farn fod y pennawd 'Gwasanaethau'r Cyngor ac Amgylchedd' yn cynnig arweiniad digon clir mai dyma'r adran berthnasol ar gyfer gwybodaeth am etholiadau a phleidleisio. Mae'r pennawd ar y fersiwn Saesneg, sef 'Voting', yn llawer cliriach. Daethpwyd i'r casgliad felly nad yw'r wybodaeth Gymraeg yn ddigon hygyrch o hyd ac nad yw'n cyfateb â gwybodaeth a ddarperir yn Saesneg.
- 4.1.11 Erbyn cynnal yr arolwg hwn, gellir adrodd bod y ffurflenni y cyfeirir atynt yn argymhelliad 4 (uchod) bellach ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid nodi fodd bynnag mai dim ond trwy gyrchu'r tudalennau Saesneg y gellir cyrraedd y ffurflenni Cymraeg.
- 4.1.12 Mae rhai adnoddau ar-lein yn parhau i fod ar gael yn Saesneg yn unig, megis yr adnodd i chwilio am a chysylltu â'r swyddfa etholiadol leol.
- 4.1.13 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth sicrhau bod yr adnodd cofrestru i bleidleisio trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefan y www.gov.uk yn cael ei osod mewn man sydd yr un mor hygyrch â'r adnodd yn Saesneg.

Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth sicrhau bod y ddolen 'Gwasanaethau Cymraeg' yn cael ei gosod mewn man mwy hygyrch ac amlwg fel bod modd i ddinasyddion sydd yn dymuno cyrchu gwybodaeth a ffurflenni trwy gyfrwng y Gymraeg ddod o hyd i'r wybodaeth yn haws.

Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth ystyried cynnwys adran benodol cyfrwng Cymraeg ar etholiadau a phleidleisio sydd yn cyfateb i'r adran 'Voting' ar y tudalennau Saesneg. Dylid sicrhau bod holl wybodaeth a ffurflenni sydd yn ymwneud ag etholiadau, cofrestru a phleidleisio trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'i gilydd mewn un lle hygyrch. Dylid cynnwys dolen i'r adran benodol o dan restr 'Gwasanaethau Cymraeg'.

4.2 Gwefan y Comisiwn Etholiadol / Fy mhleidlais i

Cefndir

4.2.1 Mae gan y Comisiwn Etholiadol ddwy wefan. Mae gwefan gorfforaethol y Comisiwn Etholiadol (www.comisiwnetholiadol.org.uk) yn darparu gwybodaeth am waith a dyletswyddau'r Comisiwn, yn ogystal â darparu gwybodaeth gyffredinol am etholiadau. Mae mwyafrif llethol y wefan yn gwbl ddwyieithog. Hyd y gwelir, dim ond gwybodaeth am faterion nad ydynt yn berthnasol i Gymru (megis etholiadau lleol yn yr Alban) sydd yn uniaith Saesneg.

4.2.2 Ceir adrannau penodol ar y wefan sydd yn darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i'r canlynol:

- pleidleiswyr
- gweinyddwyr a threfnwyr etholiadau,
- pleidiau ac ymgyrchwyr
- ymgeiswyr ac asiantau

4.2.3 Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd yn cynnal gwefan 'Fy Mhleidlais i' (www.fymhleidlaisi.co.uk) sydd wedi ei chreu yn benodol i ddarparu gwybodaeth i bleidleiswyr.

Canfyddiadau'r arolwg

4.2.4 Mae'r holl wybodaeth a chanllawiau a ddarperir sydd yn berthnasol i Gymru ac etholiadau yng Nghymru, ar gael yn ddwyieithog.

4.2.5 Mae'r adran 'Pleidleiswyr' yn cynnig gwybodaeth am etholiadau a refferenda'r dyfodol, gwybodaeth am gofrestru a gwybodaeth am ddulliau gwahanol o fwrw pleidlais. Mae'r holl wybodaeth ar gael yn y Gymraeg. Ceir hefyd ddolenni perthnasol i dudalen gofrestru cyfrwng Cymraeg www.gov.uk.

4.2.6 Mae rhan helaeth gwefan 'Fy mhleidlais i' hefyd yn ddwyieithog. Mae pob ffurflen a ddarperir ar y wefan ar gael yn y Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys y ffurflenni canlynol:

- Pleidlais drwy'r post
- Pleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng oherwydd anabledd
- Pleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng oherwydd galwedigaeth, gwasanaeth neu gyflogaeth

4.2.7 Ceir rhai enghreifftiau ar wefan 'Fy Mhleidlais i' ble mae pennawd tudalen neu fotwm yn ymddangos yn Saesneg er bod corff y testun ar gael yn y Gymraeg. e.e. botwm 'Voting by Proxy' ar y dudalen hafan Gymraeg, pennawd tudalen 'Cysylltu â ni'.

4.2.8 Mae adnodd yn ymddangos ar y dudalen hafan 'Fy Mhleidlais i' sydd yn galluogi'r dinesydd i chwilio am fanylion cyswllt ei swyddfa etholiadol leol. Mae'r adnodd hwn ar gael yn y Gymraeg ond roedd cyfeiriad y swyddfeydd a wiriwyd yn ystod yr arolwg i gyd yn ymddangos yn uniaith Saesneg.

- 4.2.9 Roedd 19 awdurdod lleol yn cyfeirio dinasyddion at wefan y Comisiwn Etholiadol neu'r wefan 'Fy Mhleidlais i' am wybodaeth gyffredinol ynglŷn â'r etholiad a'r broses o bleidleisio. O'r 19 hyn roedd deg yn cyfeirio at dudalennau Cymraeg y gwefannau tra bo naw awdurdod yn cynnwys dolen i'r gwefannau Saesneg.
- 4.2.10 Roedd 13 awdurdod lleol yn cyfeirio dinasyddion at y gwefannau er mwyn cael ffurflenni cais am bleidlais bost. O'r 13 hyn roedd chwech yn cyfeirio at dudalennau Cymraeg y gwefannau tra bo saith awdurdod yn cynnwys dolen i'r gwefannau Saesneg.
- 4.2.11 Roedd 14 awdurdod lleol yn cyfeirio dinasyddion at y gwefannau er mwyn cael ffurflenni cais am bleidlais drwy ddirprwy. O'r 14 hyn roedd wyth yn cyfeirio at dudalennau Cymraeg y gwefannau tra bo chwe awdurdod yn cynnwys dolen i'r gwefannau Saesneg.

Cynnydd ers etholiad 2015

- 4.2.12 Yn adroddiad arolwg Etholiad Cyffredinol 2015, roedd yr argymhellion canlynol yn berthnasol i wefannau'r Comisiwn Etholiadol:
- Dylai'r Comisiwn Etholiadol sicrhau bod testun Cymraeg ar gyfer pob 'botwm' sy'n ymddangos ar dudalennau Cymraeg y wefan www.fymhleidlaisi.co.uk.
 - Dylai'r Comisiwn Etholiadol hysbysebu cyfeiriad e-bost Cymraeg ar dudalennau Cymraeg y wefan www.fymhleidlaisi.co.uk.
- 4.2.13 Cyfeiriodd adroddiad arolwg Etholiad Cyffredinol 2015 at dair enghraifft benodol o 'fotymau' uniaith Saesneg oedd yn ymddangos ar y tudalennau Cymraeg sef:
- UK general election 2015
 - Frequently asked questions
 - Can I register to vote?

Mae'r botymau uchod bellach yn Gymraeg.

- 4.2.14 Erbyn arolwg 2016, dim ond un botwm uniaith Saesneg a gofnodwyd ar y tudalennau Cymraeg yn ystod yr arolwg sef botwm 'Voting by Proxy'. Roedd cynnwys yr adran ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.2.15 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai'r Comisiwn Etholiadol sicrhau bod manylion cyswllt a chyfeiriadau'r swyddfeydd etholiadol lleol sy'n ymddangos drwy'r adnodd chwilio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar y dudalen Gymraeg.

Dylai'r Comisiwn Etholiadol sicrhau bod botymau a phenawdau sydd yn ymddangos ar y tudalennau Cymraeg yn ymddangos yn Gymraeg.

4.3 Gwefan 'Dewis fy Nghomisiynydd Heddlu a Throsedd'

Cefndir

4.3.1 Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth sydd yn gyfrifol am wefan 'Dewis fy Nghomisiynydd Heddlu a Throsedd' (Dewis fy NghHTH / Choose My PCC).

4.3.2 Bwriad y wefan yw darparu gwybodaeth i'r dinesydd ynglŷn ag etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae hyn yn cynnwys:

- gwybodaeth gyffredinol a chryno am ddyletswyddau'r Comisiynydd
- gwybodaeth gyffredinol am yr etholiad
- adnodd ar gyfer chwilio am ymgeiswyr o fewn ardal benodol
- proffiliau a datganiadau ymgeiswyr ar-lein ac ar ffurf pdf i'w lawrlwytho.

Canfyddiadau'r arolwg

4.3.3 Mae rhan helaeth o'r wefan ar gael yn ddwyieithog. Fodd bynnag mae cyfeiriad y wefan yn parhau yn uniaith Saesneg www.choosemypcc.org.uk. Yn ogystal, canfuwyd ambell enghraifft lle nad oedd yr holl wasanaethau Cymraeg a Saesneg yn cyfateb yn ystod yr arolwg. Roedd y rhain yn cynnwys:

- pennawd a rhan o'r wybodaeth gyffredinol yn yr adran oedd yn darparu gwybodaeth am ymgeiswyr fesul rhanbarth yn uniaith Saesneg
- ffurflen gysylltu electronig i'w llenwi er mwyn archebu llyfryn gwybodaeth, (a'r neges yn cadarnhau bod y ffurflen wedi ei derbyn) yn uniaith Saesneg.

4.3.4 Cyhoeddwyd llyfryn ar gyfer pob rhanbarth a oedd yn cynnwys proffil a datganiadau gan holl ymgeiswyr y rhanbarth hwnnw. Roedd modd lawrlwytho fersiwn Gymraeg neu Saesneg o'r llyfrynau hyn. Noder fodd bynnag mai'r ymgeiswyr eu hunain oedd yn gyfrifol am gynnwys a chyfrwng iaith eu proffiliau a datganiadau. Roedd cyfrwng y proffiliau a'r datganiadau oedd yn ymddangos yn y llyfrynau felly yn amrywio fesul ymgeisydd gyda rhai proffiliau yn Gymraeg ac eraill yn uniaith Saesneg. Roedd hyn hefyd yn wir am y proffiliau oedd yn ymddangos ar y wefan.

4.3.5 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth fabwysiadu cyfeiriad gwe Cymraeg i'r wefan sydd yn arwain y dinesydd yn syth i'r dudalen hafan Gymraeg.

Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarperir sydd yn berthnasol i Gymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru fod yn ddwyieithog gan gynnwys holl benawdau ac is-benawdau'r wefan.

Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth sicrhau bod unrhyw ffurflenni electronig a ddefnyddir ar y wefan ar gael yn ddwyieithog.

Wrth gyflwyno neu ddarparu unrhyw gyngor neu ganllawiau i ymgeiswyr yn y dyfodol, dylai'r Swyddfa'r Cabinet annog ymgeiswyr yng Nghymru i gyflwyno eu proffiliau neu ddatganiadau yn ddwyieithog.

4.4 Gwefannau'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd

Cefndir

4.4.1 Mae gan y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghymru wefannau unigol sydd yn cynnig gwybodaeth am ddyletswyddau, gwaith a gwasanaethau'r Comisiynwyr. Mae'r wybodaeth yn benodol i'r rhanbarthau hynny y mae'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn gweithredu oddi mewn iddynt.

Canfyddiadau'r arolwg

4.4.2 Mae gwefan y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ddwyieithog ond mae'r graddau y mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cyfateb ac yn cael eu trin yn gyfartal yn amrywio'n helaeth.

4.4.3 Roedd tri o'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cynnwys gwybodaeth am yr etholiad ar eu gwefannau yn ystod yr arolwg. Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd ar wefan y tri Comisiynydd ynglŷn â'r etholiad yn ddwyieithog a'r Gymraeg a'r Saesneg yn cyfateb o ran cynnwys ac ansawdd. Roedd y wybodaeth yn dueddol o fod yn fwy perthnasol i ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr yn hytrach na phleidleiswyr.

4.4.4 Nid oedd unrhyw ffurflenni na dogfennau ynglŷn â neu yn gysylltiedig â'r etholiad wedi eu cynnwys ar wefannau'r un o'r Comisiynwyr.

4.4.5 Roedd un o'r Comisiynwyr wedi cynnwys dolen i dudalen gofrestru www.gov.uk. Roedd y ddolen yn cyfeirio'r dinesydd i'r wefan Saesneg.

4.4.6 Roedd tri o'r Comisiynwyr yn cyfeirio dinasyddion at wefan y Comisiwn Etholiadol. O'r tri hyn roedd un yn cyfeirio at dudalennau Cymraeg y wefan tra bo dau yn cynnwys dolen i'r wefan Saesneg.

4.4.7 Roedd un Comisiynydd yn cyfeirio dinasyddion at wefan ChooseMyPCC.org.uk. Roedd y ddolen yn arwain at dudalennau Saesneg y wefan.

4.4.8 Argymhellion ar gyfer gwella

Wrth ddarparu gwybodaeth am etholiadau yn y dyfodol, dylai'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd sicrhau bod unrhyw ddolenni a ddarperir ar dudalennau Cymraeg eu gwefan i wefan y Comisiwn Etholiadol, gwefan gov.uk neu wefan Dewis Fy Nghomisiynydd Heddlu a Throsedd, yn arwain at dudalennau Cymraeg y gwefannau hynny.

4.5 Gwefannau'r awdurdodau lleol

(i) Darparu gwybodaeth gyffredinol am yr Etholiad

Canfyddiadau'r arolwg

- 4.5.1 Darparodd 19 awdurdod lleol wybodaeth gyffredinol am yr etholiad yn ddwyieithog.
- 4.5.2 Roedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cyfateb yn llawn ar wefan 15 awdurdod lleol.
- 4.5.3 Roedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cyfateb yn rhannol ar wefan pedwar awdurdod. Golygai hyn bod cyfran o'r wybodaeth ar gael yn y Gymraeg ond nad oedd yn cyfateb yn llawn â'r Saesneg yn nhermau cynnwys y wybodaeth neu safon yr iaith. Gwelwyd sawl achos ble roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn Saesneg yn llawer mwy cynhwysfawr na'r Gymraeg, a defnydd o ddolenni allanol yn arwain at dudalennau Saesneg neu ddiffyg dolenni ar y tudalennau Cymraeg o gwbl.
- 4.5.4 O'r pedwar awdurdod ble roedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cyfateb yn rhannol, nid oedd modd cyrchu'r wybodaeth drwy ffrwd Gymraeg ar wefan tri ohonynt. Yn hytrach, rhaid oedd cyrchu'r wefan yn Saesneg ac yna throsi'r iaith i'r Gymraeg drwy bwysu ar y botwm 'Cymraeg' ar frig y dudalen we. O ganlyniad, nid oedd y wybodaeth Gymraeg yn hygyrch.
- 4.5.5 Roedd y wybodaeth gyffredinol yn uniaith Saesneg ar wefan tri awdurdod lleol. Gwelwyd rhai achosion hefyd lle nad oedd dolenni a ddarparwyd ar y tudalennau Cymraeg yn gweithio.
- 4.5.6 Roedd sawl awdurdod lleol yn cynnig cyfeiriad post Cymraeg ar gyfer cysylltu neu gyflwyno ymholiad ynglŷn â'r etholiad, ond roedd naw awdurdod yn cynnig cyfeiriad e-bost uniaith Saesneg.

Cynnydd ers Etholiad 2015

- 4.5.7 Yn adroddiad arolwg Etholiad Cyffredinol 2015, roedd yr argymhellion canlynol yn berthnasol i'r wybodaeth gyffredinol a ddarparwyd gan awdurdodau lleol:
- Dylai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddog Canlyniadau sicrhau bod tudalennau cyfrwng Cymraeg gwefannau awdurdodau lleol yn gyfartal o ran cynnwys, safon a diwyg â'r tudalennau cyfatebol Saesneg sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol am etholiadau.
 - Dylai awdurdodau lleol fabwysiadu'r un polisi golygyddol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn ag etholiadau ar eu gwefan fel sy'n bodoli ar gyfer gwybodaeth a gyhoeddir ar adrannau eraill y wefan.
 - Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod dolenni a ddarperir at wefannau allanol yn ddolenni sy'n gweithio ac sy'n cyfeirio'r dinesydd at wybodaeth gyfredol.
- 4.5.8 Roedd nifer yr awdurdodau lleol ble'r oedd y wybodaeth gyffredinol yn ddwyieithog a'r wybodaeth Gymraeg yn cyfateb yn llawn i'r Saesneg yn
-

parhau yn 15. Ni welwyd llawer o achosion ble'r oedd safon y Gymraeg yn wallus yn ystod yr arolwg hwn. Fodd bynnag, nodwyd yn adroddiad 2015 nad oedd yr un wefan yn cynnig gwybodaeth uniaith Saesneg, sydd yn golygu bod tri awdurdod lleol wedi newid o ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog i Saesneg yn unig ers Etholiad 2015.

- 4.5.9 Roedd y dolenni i wefannau Swyddfa'r Cabinet a'r Comisiwn Etholiadol yn arwain at y tudalennau Cymraeg mewn 25 achos ac i'r tudalennau Saesneg mewn 17 achos.
- 4.5.10 Roedd 19 awdurdod lleol yn cyfeirio dinasyddion at wefan y Comisiwn Etholiadol neu'r wefan 'Fy Mhleidlais i' am wybodaeth gyffredinol ynglŷn â'r etholiad a'r broses o bleidleisio. O'r 19 hyn, roedd 10 yn cyfeirio at dudalennau Cymraeg y gwefannau tra bo naw awdurdod yn cynnwys dolennau i'r gwefannau Saesneg.
- 4.5.11 Roedd 21 awdurdod lleol yn cyfeirio'r dinesydd at y wefan gov.uk. O'r 21 awdurdod hynny, roedd 15 yn arwain at y dudalen 'Cofrestru i Bleidleisio' Cymraeg. Roedd y chwe awdurdod arall yn arwain at dudalennau Saesneg gwefan www.gov.uk.
- 4.5.12 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddog Canlyniadau sicrhau bod tudalennau cyfrwng Cymraeg gwefannau awdurdodau lleol yn gyfartal o ran cynnwys, safon a diwyg â'r tudalennau cyfatebol Saesneg sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol am etholiadau, gan gynnwys y defnydd o unrhyw ddolenni i wefannau allanol.

Dylai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddog Canlyniadau sicrhau bod gwybodaeth am etholiadau a phleidleisio sydd ar y wefan yr un mor hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod modd pori'r holl wybodaeth yn Gymraeg heb orfod trosi'r iaith wrth fynd o un dudalen i'r llall.

Wrth ddarparu canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddog Canlyniadau, dylai'r Comisiwn Etholiadol bwysleisio'r angen i sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir am yr etholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefannau'r awdurdodau lleol yn gyfartal o ran cynnwys, safon a diwyg â'r tudalennau cyfatebol Saesneg gan gynnwys y defnydd o unrhyw ddolenni i wefannau allanol.

(ii) Gwybodaeth a ffurflen 'cofrestru i bleidleisio'

Canfyddiadau'r arolwg

- 4.5.13 Roedd 13 awdurdod lleol yn cynnig gwybodaeth am y broses o gofrestru i bleidleisio yn Gymraeg yn ogystal â darparu dolen i dudalen Gymraeg 'Cofrestru i Bleidleisio' www.gov.uk.
- 4.5.14 Roedd chwe awdurdod yn cynnig gwybodaeth gryno am y broses o gofrestru i bleidleisio yn Gymraeg ond yn darparu dolen i dudalen Saesneg 'Register to Vote' www.gov.uk. O'r chwech hyn, rhaid oedd cyrchu'r wybodaeth yn Saesneg yn gyntaf ac yna throsi i'r Gymraeg drwy bwysu'r botwm 'Cymraeg' ar frig y wefan ar gyfer tri ohonynt. O ganlyniad, nid oedd y broses gofrestru'r un mor hygyrch i'r rhai oedd yn dymuno gwneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.5.15 Roedd yr holl wybodaeth ynglŷn â chofrestru i bleidleisio ynghyd â dolenni allanol yn uniaith Saesneg ar wefan un awdurdod lleol. Nid oedd y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnis yn y Gymraeg o gwbl gan yr awdurdod lleol.
- 4.5.16 Roedd un awdurdod lleol yn galluogi'r dinesydd i lawrlwytho ffurflen electroneg yn Gymraeg i'w llenwi.
- 4.5.17 Roedd un awdurdod yn gofyn i'r dinesydd gysylltu yn uniongyrchol â'r Cyngor drwy ffurflen ymholiad electroneg Gymraeg er mwyn gwneud cais am ffurflen cofrestru i bleidleisio.
- 4.5.18 Roedd 21 awdurdod lleol yn cyfeirio dinesydd at y wefan www.gov.uk ar gyfer cofrestru i bleidleisio. Roedd 14 o'r awdurdodau lleol hyn yn cyfeirio at y tudalennau Cymraeg tra bo'r ddolen oddi ar wefannau'r saith arall yn arwain y dinesydd at y tudalennau Saesneg.
- 4.5.19 Roedd 19 awdurdod lleol yn cyfeirio dinesyddion at wefan y Comisiwn Etholiadol neu'r wefan 'Fy Mhleidlais i' am wybodaeth gyffredinol ynglŷn â'r etholiad a'r broses o bleidleisio. O'r 19 hyn, roedd deg yn cyfeirio at dudalennau Cymraeg y gwefannau tra bo naw awdurdod yn cynnwys dolen i'r gwefannau Saesneg.
- 4.5.20 Nid oedd y dudalen gwybodaeth am gofrestru i bleidleisio un awdurdod lleol heb ei diweddarw ers 2007, ac roedd yr holl wybodaeth yn uniaith Saesneg hefyd.
- 4.5.21 Yn ystod yr arolwg derbyniodd y Comisiynydd ohebiaeth oddi wrth aelod o'r cyhoedd yn tynnu sylw at y ffaith bod un awdurdod lleol wedi anfon llythyr yn cadarnhau cofrestriad yn uniaith Saesneg, er i'r aelod hwnnw gwblhau'r broses gofrestru yn Gymraeg.

(iii) Gwybodaeth a ffurflen gais am bleidlais bost

Canfyddiadau'r arolwg

- 4.5.22 Darparodd chwe awdurdod lleol ffurflen i'w lawrlwytho oddi ar y wefan. Roedd pump o'r ffurflenni hyn ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 4.5.23 Roedd 13 awdurdod lleol yn cyfeirio dinasyddion at wefannau'r Comisiwn Etholiadol er mwyn cael ffurflenni cais am bleidlais bost. O'r 13 hyn roedd chwech yn cyfeirio at dudalennau Cymraeg y gwefannau tra bo saith awdurdod yn cynnwys dolen i'r gwefannau Saesneg.
- 4.5.24 Roedd pedwar awdurdod lleol yn gofyn i'r dinesydd gysylltu â nhw er mwyn cael copi o'r ffurflen gais berthnasol.
- 4.5.25 Eto, gwelwyd sawl achos ble nad oedd y Gymraeg yr un mor hygyrch â'r Saesneg. Rhaid oedd cyrchu'r wybodaeth yn Saesneg ar wefan tri awdurdod ac yna throsi i'r Gymraeg drwy ddefnyddio'r botwm 'Cymraeg' ar frig y dudalen. Roedd sawl achos hefyd ble roedd mwy o wybodaeth ynglŷn â phleidlais bost yn ymddangos ar dudalennau Saesneg na thudalennau Cymraeg yr awdurdodau.
- 4.5.26 Roedd yr holl wybodaeth ynglŷn â gwneud cais am bleidlais bost, ynghyd â dolenni allanol yn uniaith Saesneg ar wefan un awdurdod lleol. Nid oedd y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig yn y Gymraeg o gwbl gan yr awdurdod lleol.

(iv) Gwybodaeth a ffurflen gais am bleidlais drwy ddirprwy

Canfyddiadau'r arolwg

- 4.5.27 Darparodd tri awdurdod lleol ffurflen i'w lawrlwytho oddi ar y wefan ac roedd y tair ffurflen ar gael yn Gymraeg.
- 4.5.28 Roedd 14 awdurdod lleol yn cyfeirio dinasyddion at wefannau'r Comisiwn Etholiadol er mwyn cael ffurflenni cais am bleidlais drwy ddirprwy. O'r 14 hyn roedd wyth yn cyfeirio at dudalennau Cymraeg y gwefannau tra bo chwe awdurdod yn cynnwys dolen i'r gwefannau Saesneg.
- 4.5.29 Roedd yr holl wybodaeth ynglŷn â gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy, ynghyd â dolenni allanol yn uniaith Saesneg ar wefan dau awdurdod lleol. Nid oedd y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig yn y Gymraeg o gwbl gan yr awdurdodau lleol hynny.
- 4.5.30 Roedd tri awdurdod lleol yn gofyn i'r dinesydd gysylltu â nhw er mwyn cael copi o'r ffurflen gais berthnasol. Roedd un awdurdod lleol yn darparu ffurflen ymholiad electroneg yn Gymraeg, tra bo dau awdurdod lleol arall yn darparu manylion cyswllt i'r swyddog etholiadau. Darparwyd cyfeiriad post y ddau awdurdod yn Gymraeg ond roedd manylion cyswllt e-bost un awdurdod yn Saesneg yn unig.
-

Canlyniadau

- 4.5.31 Unwaith eto, gwelwyd achosion ble nad oedd y wybodaeth Gymraeg yr un mor hygyrch â'r Saesneg ac roedd angen cyrchu'r wybodaeth yn Saesneg yn gyntaf ac yna trosi i'r Gymraeg ar wefan sawl awdurdod lleol.
- 4.5.32 Yn ystod yr arolwg derbyniodd y Comisiynydd ohebiaeth oddi wrth aelod o'r cyhoedd yn tynnu sylw at y ffaith bod un awdurdod lleol wedi gyrru llythyr yn cadarnhau cais am bleidlais drwy ddirprwy yn uniaith Saesneg, er i'r cais hwnnw cael ei gyflwyno yn Gymraeg.

Cynnydd ers Etholiad 2015

- 4.5.33 Yn adroddiad arolwg Etholiad Cyffredinol 2015, roedd yr argymhellion canlynol yn berthnasol i'r ffurflenni a ddarparwyd gan awdurdodau lleol:
- Wrth gyfeirio dinasyddion at ffurflenni cofrestru i bleidleisio, ffurflenni cais am bleidlais bost a/neu ffurflenni cais am bleidlais drwy ddirprwy ar wefannau www.fymhleidlaisi.co.uk a www.gov.uk, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyfeirio dinasyddion at ffurflenni Cymraeg y gwefannau hynny.
 - Wrth gyfeirio dinasyddion at ffurflenni cofrestru i bleidleisio, ffurflenni cais am bleidlais bost a/neu ffurflenni cais am bleidlais drwy ddirprwy ar wefannau www.fymhleidlaisi.co.uk a www.gov.uk sydd ond ar gael yn Saesneg, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddarparu fersiynau Cymraeg o'r ffurflenni hynny ar wefan yr awdurdod lleol.
- 4.5.34 Erbyn arolwg 2016 roedd ffurflenni cofrestru, ffurflenni cais am bleidlais bost a chais am bleidlais drwy ddirprwy a ddarperir ar wefan www.fymhleidlaisi.co.uk a www.gov.uk ar gael yn Gymraeg. Noder fodd bynnag bod yn rhaid cyrchu gwefan www.gov.uk yn Saesneg er mwyn cael mynediad at y ffurflenni cais am bleidlais bost a chais am bleidlais drwy ddirprwy.
- 4.5.35 Mae nifer o awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu dolenni o'r tudalennau Cymraeg i dudalennau Saesneg gwefannau allanol.

4.5.36 Argymhellion ar gyfer gwella

Wrth gyflwyno gwybodaeth ar eu gwefan ynglŷn â sut mae cofrestru i bleidleisio, neu sut mae gwneud cais am bleidlais drwy'r post a/neu drwy ddirprwy, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn gyfartal o ran cynnwys, safon a hygyrchedd â'r wybodaeth gyfatebol Saesneg.

Wrth gyfeirio dinasyddion sydd yn ceisio ffurflenni cofrestru i bleidleisio, ffurflenni cais am bleidlais bost a/neu ffurflenni cais am bleidlais drwy ddirprwy Cymraeg at wefannau www.fymhleidlaisi.co.uk a www.gov.uk, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyfeirio dinasyddion at ffurflenni Cymraeg y gwefannau hynny.

Wrth ddarparu canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddog Canlyniadau, dylai'r Comisiwn Etholiadol bwysleisio'r angen i sicrhau bod unrhyw wybodaeth a ffurflenni electroneg a ddarperir am yr etholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefannau'r awdurdodau lleol yn gyfartal o ran cynnwys, safon a diwyg â'r tudalennau cyfatebol Saesneg gan gynnwys y defnydd o unrhyw ddolenni i wefannau allanol.

(v) Hysbysiad o etholiad a gwybodaeth am ymgeiswyr

Canfyddiadau'r arolwg

- 4.5.37 Roedd yr hysbysiad o etholiad a'r datganiadau personau a enwebwyd ar gael yn Gymraeg ar wefan pob awdurdod lleol.
- 4.5.38 Roedd 16 awdurdod lleol yn cyflwyno'r wybodaeth ar dudalennau Cymraeg eu gwefannau.
- 4.5.39 Nid oedd y wybodaeth yr un mor hygyrch â'r Saesneg ar wefannau'r chwe awdurdod lleol arall.
- 4.5.40 Er bod gwybodaeth gyffredinol ar gael yn Gymraeg, nid oedd y ddolen i ddatganiadau personau a enwebwyd yn gweithio ar dudalen Gymraeg un awdurdod lleol, ond roedd y datganiadau ar gael yn ddwyieithog ar y dudalen gyfatebol Saesneg.
- 4.5.41 Roedd rhaid cyrchu'r wybodaeth yn Saesneg yn gyntaf ar gyfer gwefan un awdurdod lleol ac yna trosi i'r iaith Gymraeg drwy glicio ar y botwm 'Cymraeg'. Roedd yr hysbysiad o etholiad a datganiadau personau a enwebwyd yna'n ymddangos yn Gymraeg.
-

- 4.5.42 Nid oedd pedwar awdurdod lleol yn cynnig unrhyw wybodaeth am yr hysbysiad na datganiadau personau a enwebwyd ar eu tudalennau Cymraeg, ond roedd modd gweld copiâu electronig ar ffurf pdf yn ddwyieithog ar eu tudalennau Saesneg. Nid oedd modd cyrchu'r wybodaeth yn Gymraeg o gwbl yn yr achosion hyn er bod yr hysbysiadau eu hunain ar gael yn ddwyieithog.

Cynnydd ers Etholiad 2015

- 4.5.43 Yn adroddiad arolwg Etholiad Cyffredinol 2015, roedd yr argymhellion canlynol yn berthnasol i hysbysiadau o etholiad a datganiadau personau a enwebwyd yr awdurdodau lleol:
- Dylai Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod hysbysiadau o etholiad a gwybodaeth am ymgeiswyr fod ar gael yn Gymraeg fel y mae yn Saesneg.
 - Ble cyhoeddir gwybodaeth ar ffurf ddwyieithog yn hytrach na gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ar wahân, dylai Swyddogion Canlyniad sicrhau y cyhoeddir y wybodaeth ar dudalennau Cymraeg gwefannau awdurdodau lleol yn ogystal â'r tudalennau Saesneg.
- 4.5.44 Adroddwyd yn arolwg Etholiad Cyffredinol 2015 bod tri awdurdod lleol yn cyhoeddi hysbysiadau etholiad a datganiadau personau yn uniaith Saesneg.
- 4.5.45 Erbyn yr arolwg diweddaraf hwn, mae pob awdurdod lleol wedi cyflwyno'r hysbysiadau o etholiad a datganiadau personau a enwebwyd yn ddwyieithog.
- 4.5.46 Argymhellion ar gyfer gwella

Wrth gyhoeddi'r hysbysiadau o etholiad a gwybodaeth am ymgeiswyr (gan gynnwys datganiadau o bersonau a enwebwyd) ar wefan yr awdurdod lleol, dylai'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol a/neu'r Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod y wybodaeth ar gael ar dudalennau Cymraeg y wefan, ac yr un mor hygyrch â'r wybodaeth ar dudalennau cyfatebol Saesneg.

Wrth ddarparu canllawiau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, dylai'r Comisiwn Etholiadol bwysleisio'r angen i sicrhau bod gwybodaeth megis hysbysiadau o etholiadau a datganiadau personau a enwebwyd yr un mor hygyrch ar wefannau'r awdurdodau lleol ac y maent yn y Saesneg.

4.6 Cyhoeddi'r canlyniadau

Cefndir

4.6.1 Wrth gynnal arolwg Etholiad 2015, canfuwyd bod y modd yr oedd Swyddogion Canlyniadau yn defnyddio'r Gymraeg wrth gyhoeddi canlyniad yr etholiad o fewn eu hetholaethau yn amrywio yn eang iawn. Nodwyd mai cyfran fechan o'r Swyddogion Canlyniadau oedd yn cyhoeddi'r canlyniad yn ei gyfanrwydd yn ddwyieithog. Yn yr achosion hynny ble cyhoeddwyd y canlyniad yn ddwyieithog, nodwyd anghysondeb yn y modd yr oedd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi yn y ddwy iaith, gyda rhai Swyddogion Canlyniadau yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg am yn ail drwy'r cyhoeddiad, ac eraill yn gwneud y cyhoeddiad yn ei gyfanrwydd yn Saesneg yn gyntaf ac yna yn ailadrodd yn Gymraeg.

4.6.2 Nodwyd hefyd bod y graddau yr oedd y cyhoeddiad Cymraeg yn ddealladwy yn amrywio yn helaeth.

4.6.3 Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Comisiynydd ar ganfyddiadau arolwg Etholiad 2015, cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol adnodd 'Templedi Sgriptiau Enghreifftiol ar gyfer cyhoeddiadau proses gyfrif Cynulliad Cenedlaethol Cymru'. Dosbarthwyd yr adnodd i bob Swyddog Canlyniadau er mwyn paratoi at ganlyniadau'r etholiad 2016. Roedd yr adnodd yn cynnwys sgript ddwyieithog gynhwysfawr ar gyfer holl gyhoeddiadau noson y canlyniadau. Roedd y ddogfen hefyd yn nodi'r canlynol:

Dylech wneud pob cyhoeddiad yn Gymraeg a Saesneg. Mae trefn blaenoriaeth o ran pa iaith i'w defnyddio gyntaf yn ôl eich disgrisiwn.

Eich penderfyniad chi hefyd fydd sut i rannu unrhyw gyhoeddiadau, h.y. p'un a fyddwch yn gwneud y cyhoeddiadau yn y ddwy iaith fesul adran neu fesul paragraff. Fodd bynnag, wrth gyhoeddi'r canlyniad, bydd angen i chi sicrhau bod cyn lleied o oedi â phosibl rhwng y cyhoeddiad yn Gymraeg a'r cyhoeddiad yn Saesneg o gyfanswm nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd. Mae'r sgript isod yn rhoi enghraifft a fydd yn lleihau'r oedi rhwng y cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg.

Dylech ddefnyddio siaradwyr Cymraeg rhugl ar gyfer y cyhoeddiadau yn Gymraeg i sicrhau eu bod yn cyflwyno'r cyhoeddiadau yn gywir ac y gall y siaradwyr Cymraeg sy'n bresennol eu deall.

Canfyddiadau'r arolwg

4.6.4 Cyhoeddwyd 45 o ganlyniadau yn ystod etholiad 2016: canlyniadau Etholiad Cynulliad Cymru mewn 40 o etholaethau a phedwar rhanbarth yn ogystal cyhoeddwyd canlyniad isetholiad mewn un etholaeth. Gwiriwyd 37 o gyhoeddiadau canlyniad allan o'r 45. Nid oedd modd gwirio chwe chanlyniad gan nas darlledwyd y cyhoeddiad. Yn ogystal nid oedd modd dod i gasgliad ynglŷn â safon a defnydd y Gymraeg mewn dau gyhoeddiad arall gan na ddarlledwyd y cyhoeddiad Cymraeg, ond gellir datgan bod y cyhoeddiad wedi cael ei wneud yn ei gyfanrwydd trwy gyfrwng y Saesneg yn gyntaf cyn torri'r darllediad. Yn ogystal, o ganlyniad i broblemau sain, nid oedd modd dod i

Canlyniadau

gasgliad os defnyddiwyd y Gymraeg a'r Saesneg am yn ail ai peidio mewn un etholaeth, ond gellir datgan bod y cyhoeddiad wedi ei wneud yn ddwyieithog.

- 4.6.5 Cyhoeddwyd 34 o'r canlyniadau yn ddwyieithog.
- 4.6.6 Roedd tri chyhoeddiad yn rhannol ddwyieithog. Golygai hyn bod cyfran o'r cyhoeddiad wedi ei wneud yn ddwyieithog, megis y cyfarchiad cychwynnol neu gasgliad y cyhoeddiad ond y bu i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi ffigyrau'r canlyniad yn uniaith Saesneg.
- 4.6.7 Dirprwywyd y cyhoeddiad Cymraeg i gyfieithydd neu siaradwr Cymraeg rhugl wrth gyhoeddi canlyniadau'r etholiad ar gyfer 19 etholaeth, tra bu i'r swyddog canlyniadau ei hunan wneud y cyhoeddiad yn ddwyieithog wrth gyhoeddi canlyniad ar gyfer 17 o etholaethau.
- 4.6.8 Cyhoeddwyd y canlyniad yn Gymraeg yn gyntaf mewn 11 cyhoeddiad. Yn ogystal, defnyddiwyd y Gymraeg yn gyntaf yn rhannol mewn saith cyhoeddiad (golygai hyn bod y cyfarchiad neu gasgliad wedi ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf, ond bod cyfanswm y canlyniadau wedi eu gwneud yn Saesneg yn gyntaf a'r Gymraeg i ddilyn).
- 4.6.9 Cyhoeddwyd y canlyniad yn Saesneg yn gyntaf ar gyfer 20 etholaeth.
- 4.6.10 Defnyddiwyd y Gymraeg a'r Saesneg am yn ail mewn 31 cyhoeddiad tra gwnaethpwyd y cyhoeddiad yn ei gyfanrwydd yn Saesneg yn gyntaf ar gyfer canlyniad chwe etholaeth.
- 4.6.11 Wrth ddod i gasgliad ynglŷn â'r graddau yr oedd y cyhoeddiad Cymraeg yn ddealladwy, penderfynwyd defnyddio'r system sgorio ganlynol:
1 = Rhugl
2 = Dealladwy (rhywfaint o wallau bychan nad oedd yn amharu ar y cyhoeddiad)
3 = Rhannol ddealladwy (rhai gwallau oedd yn amharu rhywfaint ar y cyhoeddiad)
4 = Anodd deall (llawer o wallau oedd yn ei gwneud yn anodd deall y canlyniad)
5 = Annealladwy
- 4.6.12 Sgoriwyd 17 cyhoeddiad gyda sgôr o 1. Defnyddiwyd cyfieithydd mewn 7 o'r cyhoeddiadau.
- 4.6.13 Sgoriwyd 11 o'r cyhoeddiad gyda sgôr o 2.
- 4.6.14 Sgoriwyd pedwar cyhoeddiad gyda sgôr o 3.
- 4.6.15 Sgoriwyd dau gyhoeddiad gyda sgôr o 4.
- 4.6.16 Cesglir felly bod 82% o'r cyhoeddiadau a wnaethpwyd yn ddealladwy (sgôr 1 a 2) tra bod 11% yn rhannol ddealladwy.
- 4.6.17 Roedd 6% o'r cyhoeddiadau yn anodd eu deall.
-

Canlyniadau

- 4.6.18 Ni phennwyd yr un cyhoeddiad yn gwbl annealladwy.
- 4.6.19 Gwelwyd anghysondeb yn y modd yr oedd nifer neu gyfansymiau'r pleidleisiau yn cael eu cyhoeddi. Roedd rhai swyddogion yn cyhoeddi'r cyfanswm ar ffurf rhif cyfan (e.e. tair mil tri chant) tra bod swyddogion eraill yn cyhoeddi'r cyfanswm ar ffurf digid (e.e. tri, tri, dim dim). Cyhoeddwyd y canlyniad ar ffurf rhif cyfan ac yna fesul digid yn uniaith Saesneg wrth gyhoeddi canlyniad tair etholaeth. Cyhoeddwyd y canlyniad ar ffurf rhif cyfan yn Saesneg ond fesul digid yn y Gymraeg wrth gyhoeddi canlyniad un etholaeth.
- 4.6.20 Gwelwyd rhai enghreifftiau o'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol yn yr achosion hynny ble cyhoeddwyd y canlyniad yn ei gyfanrwydd yn Saesneg yn gyntaf. Wrth fynd ati i wneud y cyhoeddiad Cymraeg gwelwyd bod darlledwyr yn siarad ar draws y cyhoeddiad Cymraeg neu roedd y canlyniad Cymraeg yn cael ei foddi gan gymeradwyaeth neu sŵn cyffredinol y gynulleidfa a oedd wedi peidio gwrando yn dilyn y cyhoeddiad Saesneg.

Cynnydd ers Etholiad 2015

- 4.6.21 Yn adroddiad Arolwg Etholiad Cyffredinol 2015, roedd yr argymhellion canlynol yn berthnasol i gyhoeddiadau canlyniad etholiad:
- Dylai Swyddogion Canlyniadau ddatgan canlyniad yr etholiad yn llawn yn y Gymraeg
 - Dylai Swyddogion Canlyniadau ddatgan canlyniadau'r etholiad ar gyfer pob ymgeisydd unigol yn y ddwy iaith yn olynol cyn symud ymlaen i'r ymgeisydd nesaf yn hytrach na gwneud datganiad cyfan mewn un iaith yn gyntaf ac yna'r llall.
 - Ble nad yw'r Swyddog Canlyniadau'n gallu siarad Cymraeg i lefel sy'n ei alluogi i ynganu geiriau, brawddegau ac ymadroddion y datganiad ynghyd ag enw'r etholaeth a nifer y pleidleisiau mewn ffordd sy'n ddealladwy i siaradwyr Cymraeg, dylai'r Swyddog Canlyniadau ddirprwyo'r cyhoeddiad Cymraeg i siaradwr Cymraeg rhugl.
- 4.6.22 Roedd 92% o'r cyhoeddiadau a wiriwyd yn eu cyfanrwydd yn ddwyieithog tra bod gweddill yr 8% yn rhannol ddwyieithog.
- 4.6.23 Defnyddiwyd y Gymraeg a'r Saesneg am yn ail yn 84% o'r cyhoeddiadau tra gwnaethpwyd y cyhoeddiad yn ei gyfanrwydd yn Saesneg yn gyntaf yng ngweddill yr 16% a wiriwyd.
- 4.6.24 Dirprwywyd y cyhoeddiad Cymraeg i gyfieithydd / siaradwr Cymraeg rhugl yn 51% o'r cyhoeddiadau.
-

4.6.25 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai Swyddogion Canlyniadau ddatgan canlyniadau'r etholiad ar gyfer pob ymgeisydd unigol yn y ddwy iaith yn olynol cyn symud ymlaen i'r ymgeisydd nesaf yn hytrach na gwneud datganiad cyfan mewn un iaith yn gyntaf ac yna'r llall.

Dylai'r Swyddogion Canlyniadau sicrhau eu bod yn cyhoeddi cyfanswm y pleidleisiau yn yr un ffurf yn Gymraeg a'r ffurf Saesneg.

Pan nad yw'r Swyddog Canlyniadau'n gallu siarad Cymraeg i lefel sy'n ei alluogi i ynganu geiriau, brawddegau ac ymadroddion y datganiad ynghyd ag enw'r etholaeth a nifer y pleidleisiau mewn ffordd sy'n ddealladwy i siaradwyr Cymraeg, neu pan nad yw'r Swyddog Canlyniadau yn gyfforddus yn cyhoeddi'n Gymraeg, dylai'r Swyddog Canlyniadau ddirprwyo'r cyhoeddiad Cymraeg i siaradwr Cymraeg rhugl.

Wrth ddarparu canllawiau i Swyddogion Canlyniadau, dylai'r Comisiwn Etholiadol bwysleisio'r angen na ddylid trin y cyhoeddiad Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5. Crynodeb o'r argymhellion

5.1 Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth

1. Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth sicrhau bod yr adnodd cofrestru i bleidleisio trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefan y www.gov.uk yn cael ei osod mewn man sydd yr un mor hygyrch â'r adnodd yn Saesneg.
2. Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth sicrhau bod y ddolen 'Gwasanaethau Cymraeg' yn cael ei gosod mewn man mwy hygyrch am amlwg fel bod modd i ddinasyddion sydd yn dymuno cyrchu gwybodaeth a ffurflenni trwy gyfrwng y Gymraeg ddod o hyd i'r wybodaeth yn haws.
3. Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth ystyried cynnwys adran benodol cyfrwng Cymraeg ar etholiadau a phleidleisio sydd yn cyfateb i'r adran 'Voting' ar y tudalennau Saesneg. Dylid sicrhau bod holl wybodaeth a ffurflenni sydd yn ymwneud ag etholiadau, cofrestru a phleidleisio trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'i gilydd mewn un lle hygyrch. Dylid cynnwys dolen i'r adran benodol o dan restr 'Gwasanaethau Cymraeg'.
4. Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth fabwysiadu cyfeiriad gwe Cymraeg i'r wefan 'Choose My PCC' sydd yn arwain y dinesydd yn syth i'r dudalen hafan Gymraeg.
5. Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarperir ar wefan 'Choose my PCC' sydd yn berthnasol i Gymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru fod yn ddwyieithog gan gynnwys holl benawdau ac is-benawdau'r wefan.
6. Dylai Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth sicrhau bod unrhyw ffurflenni electronig a ddefnyddir ar y wefan ar gael yn ddwyieithog.
7. Wrth gyflwyno neu ddarparu unrhyw gyngor neu ganllawiau i ymgeiswyr yn y dyfodol, dylai'r Swyddfa'r Cabinet annog ymgeiswyr yng Nghymru i gyflwyno eu proffiliau neu ddatganiadau yn ddwyieithog.

8. Dylai'r Comisiwn Etholiadol sicrhau bod manylion cyswllt a chyfeiriadau'r swyddfeydd etholiadol lleol sy'n ymddangos drwy'r adnodd chwilio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar y dudalen Gymraeg.
9. Dylai'r Comisiwn Etholiadol sicrhau bod botymau a phenawdau sydd yn ymddangos ar y tudalennau Cymraeg yn ymddangos yn Gymraeg.
10. Wrth ddarparu canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddog Canlyniadau, dylai'r Comisiwn Etholiadol bwysleisio'r angen i sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir am yr etholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefannau'r awdurdodau lleol yn gyfartal o ran cynnwys, safon a diwyg â'r tudalennau cyfatebol Saesneg gan gynnwys y defnydd o unrhyw ddolenni i wefannau allanol.
11. Wrth ddarparu canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddog Canlyniadau, dylai'r Comisiwn Etholiadol bwysleisio'r angen i sicrhau bod unrhyw wybodaeth a ffurflenni electronig a ddarperir am yr etholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefannau'r awdurdodau lleol yn gyfartal o ran cynnwys, safon a diwyg â'r tudalennau cyfatebol Saesneg gan gynnwys y defnydd o unrhyw ddolenni i wefannau allanol.
12. Wrth ddarparu canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddogion Canlyniadau, dylai'r Comisiwn Etholiadol bwysleisio'r angen i sicrhau bod gwybodaeth megis hysbysiadau o etholiadau a datganiadau personau a enwebwyd yr un mor hygyrch ar wefannau'r awdurdodau lleol ac y maent yn y Saesneg.
13. Wrth ddarparu canllawiau i Swyddogion Canlyniadau, dylai'r Comisiwn Etholiadol bwysleisio'r angen i sicrhau na ddylid trin y cyhoeddiad Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5.3 Y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru

14. Wrth ddarparu gwybodaeth am etholiadau yn y dyfodol, dylai'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd sicrhau bod unrhyw ddolenni a ddarperir ar dudalennau Cymraeg eu gwefan i wefan y Comisiwn Etholiadol, gwefan www.gov.uk neu wefan Dewis Fy Nghomisiynydd Heddlu a Throsedd, arwain at dudalennau Cymraeg y gwefannau hynny.

5.4 Swyddogion Cofrestru a Swyddogion Canlyniadau / Awdurdodau Lleol

15. Dylai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddog Canlyniadau sicrhau bod tudalennau cyfrwng Cymraeg gwefannau awdurdodau lleol yn gyfartal o ran cynnwys, safon a diwyg â'r tudalennau cyfatebol Saesneg sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol am etholiadau gan gynnwys y defnydd o unrhyw ddolenni i wefannau allanol.
16. Dylai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddog Canlyniadau sicrhau bod gwybodaeth am etholiadau a phleidleisio sydd ar y wefan yr un mor hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod modd pori'r holl wybodaeth yn Gymraeg heb orfod trosi'r iaith wrth fynd o un dudalen i'r llall.
17. Wrth gyflwyno gwybodaeth ar eu gwefan ynglŷn â sut mae cofrestru i bleidleisio, neu sut mae gwneud cais am bleidlais drwy'r post a/neu drwy ddirprwy, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol a /neu Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn gyfartal o ran cynnwys, safon a hygyrchedd â'r wybodaeth gyfatebol Saesneg.
18. Wrth gyfeirio dinasgyddion sydd yn ceisio ffurflenni cofrestru i bleidleisio, ffurflenni cais am bleidlais bost a/neu ffurflenni cais am bleidlais drwy ddirprwy Cymraeg at wefannau www.fymhleidlaisi.co.uk a www.gov.uk, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyfeirio dinasgyddion at ffurflenni Cymraeg y gwefannau hynny.
19. Wrth gyhoeddi'r hysbysiadau o etholiad a gwybodaeth am ymgeiswyr (gan gynnwys datganiadau o bersonau a enwebwyd) ar wefan yr awdurdod lleol, dylai'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol a/neu Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod y wybodaeth ar gael ar dudalennau Cymraeg y wefan, ac yr un mor hygyrch â'r wybodaeth ar dudalennau cyfatebol Saesneg.

20. Dylai Swyddogion Canlyniadau ddatgan canlyniadau'r etholiad ar gyfer pob ymgeisydd unigol yn y ddwy iaith yn olynol cyn symud ymlaen i'r ymgeisydd nesaf yn hytrach na gwneud datganiad cyfan mewn un iaith yn gyntaf ac yna'r llall.
21. Dylai'r Swyddogion Canlyniadau sicrhau eu bod yn cyhoeddi cyfanswm y pleidleisiau yn yr un ffurf yn Gymraeg a'r ffurf Saesneg (e.e. rhif y cyfanswm neu fesul digid).
22. Ble nad yw'r Swyddog Canlyniadau'n gallu siarad Cymraeg i lefel sy'n ei alluogi i ynganu geiriau, brawddegau ac ymadroddion y datganiad ynghyd ag enw'r etholaeth a nifer y pleidleisiau mewn ffordd sy'n ddealladwy i siaradwyr Cymraeg, neu ble nad yw'r Swyddog Canlyniadau yn gyfforddus yn cyhoeddi yn Gymraeg, dylai'r Swyddog Canlyniadau ddirprwyo'r cyhoeddiad Cymraeg i siaradwr Cymraeg rhugl.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5—7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.cymru

Croesewir gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg.

comisiynyddygybraeg.cymru
